Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

**Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i:**

**Archwiliad ar y cyd gan AGEGEF ac AHGTAEF o ddatblygu achosion gan yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron.**

Rwy'n croesawu ac yn cydnabod canfyddiadau'r adroddiad datblygu achosion ar y cyd rhwng yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron (GEG), lle y daeth arolygwyr i'r casgliad y dylai'r "*Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cenedlaethol greu a chyhoeddi strategaeth glir a goruchwylio cyflenwi gwelliannau ar draws y System Cyfiawnder Troseddol. Rhaid i hyn gynnwys datblygu a gweithredu cynllun gweithredu cyfiawnder troseddol cenedlaethol sy'n nodi blaenoriaethau, yn pennu cyfrifoldebau, ac yn sefydlu amcanion perfformiad, yn ogystal â chyhoeddi diweddariadau rheolaidd ar gynnydd yn erbyn y strategaeth cyfiawnder troseddol cenedlaethol ac amcanion*."

Cefais gysur o ddarllen y gydnabyddiaeth bod y berthynas rhwng yr heddlu a GEG yn hanfodol mewn system cyfiawnder troseddol effeithiol ac effeithlon. Tra bod yr adroddiad hwn yn nodi materion gyda'r diwylliant a'r cyfathrebu ar y cyd rhwng yr heddlu a GEG, mae'n gwneud sawl argymhelliad ar gyfer mynd i'r afael â hyn. Mae'n dda nodi bod datblygiadau cynlluniau ar y cyd diweddar i gefnogi gwella a thrin datgelu, achosion cam-drin domestig a thrais rhywiol wedi arwain at lawer mwy o gydweithio a chynlluniau strategol a goruchwyliaeth uwch ar y cyd gydag angen am ansawdd ffeiliau gwell.

Rwyf wedi nodi fy syniadau a'r sicrwydd rwyf wedi derbyn gan y Prif Gwnstabl mewn perthynas â'r argymhellion ar gyfer heddluoedd isod.

**Argymhelliad 5: Erbyn mis Gorffennaf 2026, dylai fod gan heddluoedd y canlynol mewn grym fel rhan o'u trefniadau didoli neu gymharol:**

- **Gallu llywodraethu a phenderfynu effeithiol er mwyn sicrhau bod ymchwiliadau'n amserol ac yn cael eu cwblhau i'r safonau priodol.**
  Mae gan Heddlu Dyfed-Powys ddangosfyrddau Power BI (cynnrych meddalwedd delweddu data rhyngweithiol sy'n canolbwyntio ar ddeallusrwydd busnes) mewn grym sy'n nodi ers pa bryd y mae ymchwiliad wedi bod yn mynd rhagddo a'r amser ers diweddariad diwethaf Swyddog yr Achos/Goruchwylydd.
  Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda thîm Niche (system cofnodi troseddau) i fflagio troseddau sy'n ddarostyngedig i Derfynau Amser Strategol er mwyn sicrhau bod y troseddau hynny'n cael eu goruchwylio'n drwyadl ac amserol.

Mae rhestri gwirio amrywiol ar gyfer ar gyfer Swyddogion Achos a Goruchwylwyr ar y swyddogaeth Apiau Power BI sy'n gweithredu fel cymhorthion cof ar gyfer mathau amrywiol o droseddau/goruchwyliaeth ymchwiliad cyffredinol.

- **Trefniadau cyswllt cytûn mewn grym mewn ardaloedd heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron i hwyluso cyfathrebu clir, cyson a thryloyw rhwng yr heddlu a GEG.**
- **Gwneuthurwyr penderfyniadau digonol, hyfforddedig a chymwys.**

  Mae Heddlu Dyfed-Powys yn ymgysylltu â GEG Cymru i gytuno ar welliannau i gyfathrebu. Bydd hyn yn flaenoriaeth o ystyried bod eu Prosiect Adeiladu Ffeiliau ar fin cael ei gyflwyno. Mae Heddlu Dyfed-Powys yn buddsoddi mewn unigolion profiadol i gwblhau agweddau mwyaf heriol adeiladu ffeiliau i gynorthwyo'r rheng flaen.

  Mae cynrychiolwyr GEG yn aelodau o'm Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol ac yn rhyngweithio ag aelodau o'm tîm yn ogystal â mynychu cyfarfodydd chwarterol. Rwyf hefyd yn cyfarfod â Phrif Erlynydd y Goron Cymru bob chwarter er mwyn trafod materion cyffredinol.
- **Systemau a phrosesau effeithiol ac effeithlon i reoli ciwiau ar gyfer cyflwyno ffeiliau achos, er mwyn osgoi oedi diangen a pheryglon i achosion sy'n ddarostyngedig i derfynau amser statudol.**

  Mae Heddlu Dyfed-Powys wrthi'n datblygu system Perfformiad a Rheoli newydd (mewn cydweithrediad â'r sector preifat) a fydd yn rheoli gwaith ffeil o ddydd i ddydd o fewn yr Uned Datblygu Achosion ac yn darparu data perfformiad sydd bron yn amser byw ar gyfer pob rheng. Bydd hyn yn caniatáu ar gyfer rheoli ffeiliau achos a chraffu arnynt yn well.

**Argymhelliad 6: Erbyn mis Gorffennaf 2026, dylai'r Coleg Plismona ddatblygu cwrs hyfforddi goruchwylwyr cenedlaethol ac asesiad ar ddatblygu ffeiliau achos.**

**Argymhelliad 7: O fewn 12 mis ar ôl cwblhau argymhelliad 6, dylai heddluoedd sicrhau bod pob goruchwylydd sy'n gyfrifol am asesu ffeiliau achos cyn eu cyfeirio at Wasanaeth Erlyn y Goron ar gyfer penderfyniad chyhuddo'n cael eu hyfforddi i ddatblygu ffeiliau achos a sicrwydd ansawdd Canllawiau'r Cyfarwyddwr ar Gyhuddo (6ed argraffiad).**

Fe'm hysbyswyd y bydd Heddlu Dyfed-Powys yn parhau i sgwrsio â'r Coleg Plismona dros y 12 mis nesaf mewn perthynas â'r cwrs datblygu ffeiliau achos, â'r nod o wella safonau ymchwilio ymhellach drwy gofrestru ar gyfer y cwrs hwn.

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi'i dderbyn ar gyfer ail gam rhaglen Goruchwylwyr Ymchwiliol PIP1, a fydd yn cychwyn yn yr hydref. Mae gan y cwrs hwn gwricwlwm amrywiol a manwl sydd wedi'i anelu at wella safonau goruchwylio ymchwiliad. Mae un elfen o'r cwrs hwn wedi'i hanelu at weithio gyda GEG, rôl GEG, rheoli cynlluniau gweithredu a phryd a sut i herio GEG.

Rwy'n ddiolchgar bod yr argymhellion hyn wedi'u cyhoeddi. Bydd fy nhîm a minnau'n parhau i weithio'n agos â chynrychiolwyr Heddlu Dyfed-Powys er mwyn sicrhau y gweithredir ar yr holl ddysgu perthnasol o fewnwelediadau a gynhyrchwyd drwy weithgarwch AHGTAEF er mwyn gwella'r gwasanaeth plismona ar gyfer preswylwyr ardal Dyfed-Powys.